Mae Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (YYPCC/WSSPR) yn edrych am aelodau newydd o'r cyhoedd ar gyfer eu grŵp llywio.

**Categori cyfle**
**Coch**

**Dyddiad cau:**
**12:00 ar 4 Rhagfyr 2020**

**Pwy sy'n cael cymryd rhan?**
Unigolion sydd:

- â phrofiad o ragnodi cymdeithasol
- yn gyfforddus i rannu eu barn a'u syniadau mewn cyfarfodydd
- yn gallu mynychu cyfarfodydd trwy fideo-gynadledda
- yn gallu lawrlwytho dogfennau a gwneud sylwadau arnyn nhw

**Mae angen ichi fod wedi cofrestru â'r gymuned gynhwysol i gyflwyno datganiad o ddiddordeb. Gwahoddir aelodau'r cyhoedd sydd heb gofrestru i lenwi ffurflen gofrestru i ddod yn rhan o'r gymuned gynhwysol.**

**Gyda phwy y mae'r cyfle?**
Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (YYPCC) a Chanolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (PRIME)

**Lleoliad**
Bydd cyfarfodydd yn digwydd ar-lein
**Gwybodaeth Gefndir**
Ysgol rithwir Cymru-gyfan ydy Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (YYPCC), y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi bod yn ei hariannu ers mis Ebrill 2020, am dair blynedd.

Mae rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru'n cefnogi pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant cyffredinol ac mae'n ymyrraeth anfeddygol. Mae pobl yn manteisio ar ragnodi cymdeithasol am sawl rheswm – i gynnal iechyd corfforol ac iechyd meddwl, i wella'u llesiant, i leihau ynysu cymdeithasol, ymhlith rhesymau eraill.

Mae rhagnodi cymdeithasol yn dod yn fwyfwy poblogaidd ond mae'r dystiolaeth sy'n cefnogi rhagnodi cymdeithasol yn wan ac mae ymchwilwyr wedi argymell bod fframwaith yn cael ei greu i wella ansawdd gwerthusiadau o ragnodi cymdeithasol. Prif nod YYPCC ydy datblygu'r fframwaith hwn, yn ogystal â deunyddiau hyfforddi, geirfa o dermau a chanllawiau ar sut i adrodd ar ddarganfyddiadau.

Hefyd, mae gan YYPCC bedair thema, sydd â nifer o brosiectau cysylltiedig. Y themâu ydy gwerthuso, gwerth cymdeithasol, addysg a llesiant. Dros y cyfnod ariannu, bydd aelodau o YYPCC yn gwneud prosiectau ar y cyd o fewn y themâu hyn – gellir gweld manylion prosiectau ar y wefan **www.wsspr.wales**.

**Beth y mae hyn yn galw amdano?**

Dau unigolyn i ddod yn aelodau o Grŵp Llywio YYPCC. Bydd gofyn i'r unigolion llwyddiannus fynychu cyfarfodydd misol y grŵp llywio trwy Microsoft Teams, a fydd yn para am ryw 2 awr.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd, bydd gofyn i unigolion ddarllen ac adolygu papurau ar gyfer y cyfarfod, a ddylai gymryd rhyw awr y mis, a rhoi eu safbwynt ar ymchwil arfaethedig neu unrhyw syniadau ymchwil, a ddylai gymryd rhyw awr y mis.

**Pa dâl sydd ar gael am gymryd rhan?**

Fe fydd Prifysgol De Cymru:

- yn cynnig tâl am amser o £20.00 yr awr (gall pobl ofyn am lai os ydyn nhw'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth).

I'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth, mae cyngor cyfrinachol ar gael trwy'r Gwasanaeth Cyngor Ynghylch Budd-daliadau ar gyfer Cymryd Rhan.

- Fel aelod cofrestredig o'r gymuned, fe fydd cefnogaeth y tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd a rhaglen hyfforddiant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd ar gael ichi.

**Pa gefnogaeth arall sydd ar gael?**

Bydd yr unigolion llwyddiannus yn derbyn manylion cyswllt cysylltwyr allweddol yn YYPCC a fydd yn darparu cefnogaeth ar gyfer unrhyw ymholiadau.

**Sut ydw i'n cofrestru fy niddordeb?**

Llenwch ffurflen mynegi diddordeb (EOI)

Mae mynediad i ddatganiadau o ddiddordeb yn ddiogel ac wedi'i gyfyngu, ac maent yn cael eu trin yn gyfrinachol.

**Y Camau Nesaf**

Mae'r tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn hysbysebu'r cyfle hwn ar ran arweinydd y cyfle (ymchwilydd a/neu weithiwr proffesiynol arall) i ddod o hyd i aelodau o'r cyhoedd i'w cynnwys yn eu gwaith.

Fe fyddwn ni'n adolygu'r datganiadau o ddiddordeb ac yn anfon rhai priodol at arweinydd y cyfle (ymchwilydd a/neu weithiwr proffesiynol arall).

Fe fydd naill ai'r tîm neu arweinydd y cyfle (ymchwilydd a/neu weithiwr proffesiynol arall) yn cysylltu â chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi anfon e-bost atom neu ffoniwch 02920 230457.